

Cynllun Grant Peilot Ffiniau Traddodiadol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2020/21

Mae hwn yn gynllun grant peilot ar gyfer adfer ffiniau traddodiadol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. I wneud cais am y cynllun, byddwch angen llenwi ffurflen gais a'i chyflwyno i ni erbyn dydd Llun 5 Hydref ar yr hwyraf. Prosesir ceisiadau ar sail y cyntaf i'r felin.

Cefndir

Mae gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro gyfoeth o ffiniau caeau traddodiadol, yn cynnwys perthi Sir Benfro, cloddiau pridd a chloddiau cerrig sychion. Gan amlaf, mae'r math o ffin yn adlewyrchu'r cyflyrau lleol, y deunyddiau sydd ar gael ac oed y ffin ei hun. Mae'r ffiniau hyn yn gyfraniad sylweddol i dirlun ac ecoleg y Parc Cenedlaethol.

Dan fygythiad

Mae pwysigrwydd ffiniau traddodiadol o fewn y system ffermio wedi dirywio, ynghyd â'r gwaith llafur ffermio sydd ar gael i'w cynnal nhw. Heb waith cynnal a chadw cyfnodol, mae perthi yn llacio ac yn creu bylchau, ac mae cloddiau pridd sydd ddim wedi'u ffensio yn erydu a dymchwel, proses a achosir gan symudiad da byw. Heb weithred sylweddol, mae perygl y gall y nifer o'n ffiniau ddiflannu am byth.

Y cynllun grant

Rydym yn gweithredu cynllun grant peilot i ddarparu cyfleoedd i dirfeddianwyr dderbyn cymorth ariannol gyda holl agweddau'r gwaith cynnal a chadw ac adfer ffiniau caeau traddodiadol. Mae cronfa'r grant yn gyfyngedig, a gan fod lansiad y cynllun wedi ei ohirio yn sgil Covid 19, byddwn yn gweithredu system y cyntaf i'r felin ar gyfer gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y gaeaf sydd o'n blaenau, felly cynghorir ymgeiswyr sydd â diddordeb i gyflwyno ceisiadau cyn gynted â phosib.

Sut mae'n gweithio?

Ar ôl derbyn y ffurflen gais, bydd aelod o'n tîm rheolaeth tir Cadwraeth yn cysylltu â chi i drafod eich ffin mewn mwy o fanylder, a chynnal ymweliad ar y safle, os yn berthnasol, gan gadw at bellter cymdeithasol.

Ar ôl cytuno ar gwmpas y gwaith sydd angen ei wneud ar y ffin, bydd yr ymgeisydd angen trefnu dyfynbrisiau gan gcontractwr preifat i gwblhau'r gwaith. Gallwn ddarparu manylion contractwyr, yn ogystal â manylebau a chanllawiau i'w rannu â'ch contractwr. Fel ymgeisydd, gallwch ddarparu dyfynbris i gynnal y gwaith eich hun os dymunwch wneud hynny, fodd bynnag, efallai y gofynnwn am dystiolaeth o'r sgiliau hanfodol.

Ar ôl i ni gytuno ar eich dyfynbris ar gyfer cwblhau'r gwaith, byddwn yn gwneud cynnig am grant ffurfiol i chi. Rydym yn cynnig ariannu 70% o gost yr holl waith adfer a chreu, ac eithrio ffensio, fydd yn cael ei ariannu hyd at 50% yn ôl ein cynllun rheolaeth tir Gwarchod y Parc.

Bydd yr ymgeisydd yn comisiynu'r gwaith, a thelir y grant ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, yn ogystal â chyflwyno anfoneb a llun gyda thystiolaeth/arolwg safle boddhaol gan staff y parc.

Beth ydym yn ei ariannu?

Pob agwedd ar waith adfer ffiniau traddodiadol, yn cynnwys adfer cloddiau pridd a chloddiau cerrig, adfer cloddiau cerrig sychion, plygu perthi a choedlannu, creu perthi newydd a chreu bylchau rhwng perthi presennol.

Bydd ymgeiswyr yn cael eu cyfyngu i un ffin fesul cais.

Rydym yn ffafrio ariannu gwaith adfer ffiniau cyfan, o nod i nod (e.e. o un gornel y cae i'r llall ac at giât) yn hytrach na gwaith adfer rhannol. Fodd bynnag, rydym yn derbyn mai cynnal gwaith adfer rhannol yw'r unig opsiwn mewn rhai achosion (e.e. adrannau hir o gloddiau cerrig sychion o gwmpas tiroedd comin).

Blaenoriaethau

Os bydd y cynllun yn derbyn mwy o geisiadau na'r disgwyl, efallai y byddwn yn ystyried y canlynol wrth flaenoriaethu ceisiadau

- Gwerth bywyd gwyllt
- Agosrwydd neu welededd o dramwy cyhoeddus
- Cyfraniad i'r tirlun
- Gwerth hanesyddol

Cymorth pellach

Os ydych angen cymorth neu ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni ar 01646 624800, neu drwy e-bost, devplans@pembrokeshirecoast.org.uk

Gallwch lawrlwytho'r ffurflen gais yma

<https://www.arfordirpenfro.cymru/cadwraeth/cynllun-grant-peilot-ffiniau-traddodiadol-2020-2021/>